*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r PWYLLGOR ARCHWILIO DDYDD LLUN 27 IONAWR 2020 ym MHENCADLYS Y GWASANAETH TÂN AC ACHUB, LLANELWY am 10 o'r gloch y bore.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Ddiddordebau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Medi 2019**

5. **Materion yn codi**

6. **Strategaeth Gyfalaf a Rheoli'r Trysorlys**

7. **Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2020/21**

8. **Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2018/19**

9. **Materion Brys**

   Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod tra'n ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

Dim.

*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **27 Ionawr 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch** |
| Pwnc | **Strategaeth Gyfalaf a Rheoli'r Trysorlys** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad Strategaeth Gyfalaf yn rhoi trosolwg ar lefel uchel o'r modd y mae gwariant cyfalaf, cyllido cyfalaf a gweithgareddau rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at ddarparu Gwasanaeth Tân ac Achub, ynghyd â rhoi trosolwg o'r modd y mae'r risg cysylltiedig yn cael ei reoli a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Mae'n rhoi crynodeb o'r prosesau a'r gweithdrefnau cyffredinol sy'n llywodraethu'r gwaith o brynu ac ariannu asedau er mwyn cynyddu dealltwriaeth yr aelodau o'r meysydd hyn, sydd weithiau'n rhai technegol. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y Dangosyddion Darbodus a Strategaethau'r Trysorlys y mae angen i'r Awdurdod Tân ac Achub eu cymeradwyo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2020/21 eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2019. Fe wnaeth yr Aelodau gymeradwyo cyllideb refeniw net o £35.9m ar gyfer 2020/21, gan gymeradwyo £4.1m arall ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae'r Strategaeth Gyfalaf wedi ei pharatoi gan ddefnyddio'r data perthnasol a oedd yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf fel a gymeradwywyd gan yr Aelodau ac a oedd mewn gwahanol bolisïau a gweithdrefnau sydd ar gael i reoli'r gwaith o brynu ac ariannu asedau.

3 Mae amlinelliad o'r Strategaeth Gyfalaf yn atodiad A, gydag atodiadau ategol i ddarparu'r wybodaeth fanwl am y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2020/21 i 2022/23 a'r strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â benthyca a buddsoddi arian yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Mae'r atodiadau amgaeedig yn amlinellu:-

(i) Y Strategaeth Gyfalaf gyffredinol (Atodiad A);
(ii) rhestr o ddangosyddion darbodus sydd eu hangen gan Gôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Atodiad B);
(iii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys sy'n amlinellu'r strategaeth i'w dilyn o ran benthyca tymor byr a thymor hir ar gyfer 2020/21 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys (Atodiad C);
(iv) y strategaeth i'w dilyn o ran buddsoddi cronfeydd yr Awdurdod Tân ac Achub (Atodiad D);
(v) y Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (Atodiad E).

**ARGYMHELLION**

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn cymeradwyo pob un o'r elfennau allweddol yn yr adroddiadau hyn fel y nodir isod, ac yn argymell y rhain i'r Awdurdod Tân:

(i) Y Strategaeth Gyfalaf gyffredinol yn Atodiad A;
(ii) Y Dangosyddion Darbodus sydd yn Atodiad B;
(iii) Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21 sydd yn Atodiad C;
(iv) Y Strategaeth Fuddsoddi yn Atodiad D;
(v) Y Polisi Isafswm Darpariaeth yn Atodiad E.

**CEFNDIR**

5 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar strategaeth rheoli'r trysorlys a'r polisïau, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar eu canfyddiadau.

**GWYBODAETH**

6 Dylai'r Pwyllgor nodi bod y strategaethau yn yr adroddiad wedi eu paratoi gan ddefnyddio canllawiau gan Arlingclose, sef ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys a ddefnyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sydd â chyfrifoldeb am swyddogaeth trysorlys y Gwasanaeth Tân ac Achub.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'n sicrhau bod y broses o brynu asedau i gefnogi gwasanaethau rheng flaen yn broses ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn y seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddio ar gael yn yr atodiadau i'r adroddiad. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Buddsoddi arian dros ben – mae yna risg y byddai'r sefydliadau ariannol lle mae arian y gwasanaeth yn cael ei fuddsoddi yn gallu methu, gan golli rhan o'r prifswm a fuddsoddwyd. Er hynny, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg yma. |

**Atodiad A**

## 1.0 STRATEGAETH GYFALAF

Nod y strategaeth yw ei gwneud yn haws i'r Aelodau ddeall sut mae cysylltiad rhwng Gwariant Cyfalaf ac Ariannu Cyfalaf, a pha bolisïau a gweithdrefnau sydd ar gael i lywodraethu'r gwaith o brynu ac ariannu asedau.

1.1 Gwariant Cyfalaf ac Ariannu

1.2 Gwariant cyfalaf yw pan fo'r Awdurdod yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn Awdurdod Tân ac Achub , gallai hyn olygu gwario ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a benthyciadau a grantiau i gyrff eraill i'w galluogi i brynu asedau. Mae gan yr Awdurdod rywfaint o ddisgresiwn cyfyngedig am yr hyn sy'n cyfri fel gwariant cyfalaf, er enghraifft, nid yw asedau sy'n costio llai na £5,000 yn cael eu cyfalafu ac maent yn cael eu rhoi ar y refeniw yn ystod y flwyddyn. Dyma newid yn y polisi oherwydd £1,000 oedd y terfyn cyfalaf o'r blaen. Mae nawr wedi cael ei gynyddu i sicrhau bod asedau'n cael eu rheoli'n fwy effeithlon.

1.3 Mae manylion polisi'r Awdurdod ar gyfalafu a thrin asedau ar gyfer cyfrifyddu ar gael fel atodiad i'r Datganiad o Gyfrifon dan 'Polisïau Datganiad Cyfrifyddu'. Mae'r cyfrifon yn cael eu cyhoeddi bob blwyddyn ar wefan y Gwasanaeth Tân, www.gwastan-gogcymru.org.uk.

Dyma'r cyllidebau gwariant cyfalaf a gymeradwywyd gan yr Aelodau:

| | 2018/19 Gwirion-eddol £'000 | 2019/20 Diwyg-iedig £'000 | 2020/21 Amcan-gyfrif £'000 | 2021/22 Amcan-gyfrif £'000 | 2022/23 Amcan-gyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Gwariant cyfalaf | 1,856 | 1,498 | 4,089 | 3,685 | 2,985 |

1.4 Mae dadansoddiad o'r cynlluniau cyfalaf a gymeradwywyd gan yr Aelodau wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig sy'n cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr bob blwyddyn. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan y Gwasanaeth Tân ac Achub fel y nodir uchod.

1.5 Yn ystod y broses o osod y gyllideb, mae rheolwyr y gwasanaeth yn gofyn am gyllid ar gyfer gwahanol gynlluniau cyfalaf. Mae pob cais yn cael ei ystyried ar sail anghenion y gwasanaeth ac i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol a nodir yn y Cynllun Llesiant.

1.6 Ar ôl cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf, rhaid cyflawni pob gwariant yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod. Rhaid i reolwyr y Gwasanaeth sicrhau bod yr holl wariant yn cyd-fynd â'r diffiniad statudol o gyfalaf a chydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau. Mae'r gwaith o gyflawni'r rhaglen gyfalaf yn cael ei fonitro yn unol â threfniadau monitro cyllideb arferol, a chymerir camau i fynd i'r afael ag unrhyw amrywiadau o'r gwariant a gynlluniwyd.

1.7 Rhaid i'r holl wariant cyfalaf gael eu hariannu, naill ai o ffynonellau allanol (grantiau llywodraeth a chyfraniadau eraill), adnoddau'r Awdurdod ei hun (refeniw, cronfeydd wrth gefn a derbyniadau cyfalaf) neu ddyled (benthyciadau a phrydlesi).

1.8 Ffynhonnell dros dro yn unig ar gyfer cyllid yw dyled, gan fod yn rhaid ad-dalu benthyciadau a phrydlesi, felly byddcyllid arall yn cymryd ei le dros amser, fel arfer o refeniw sy'n cael ei alw yn ddarpariaeth isafswm refeniw (MRP). Neu, gellir defnyddio elw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbyniadau cyfalaf) i gymryd lle cyllid dyled.

1.9 Mae gweddill swm cronnol arian dyled yr Awdurdod yn cael ei fesur gan y gofynion ariannu cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd sy'n cael ei ariannu gan ddyled, ac mae'n lleihau gyda'r ddarpariaeth isafswm refeniw a'r derbyniadau cyfalaf a ddefnyddir yn lle dyled. Mae manylion y newidiadau i'r CFR dros y cyfnod wedi'u nodi yn atodiad B.

**2.0** **Cael gwared ar asedau:** Pan nad oes angen ased cyfalaf mwyach, mae'n bosibl ei werthu er mwyn gallu gwario'r elw, sef yr hyn a elwir yn dderbyniadau cyfafaf, ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled.

3.0 **Rheoli'r Trysorlys**

3.1 Mae'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn ymwneud â chadw digon, ond nid gormod, o arian ar gyfer anghenion gwario'r Awdurdod, tra'n rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig. Mae arian dros ben yn cael ei fuddsoddi tan mae ei angen, tra bydd prinder arian yn cael ei ddiwallu drwy fenthyca, er mwyn osgoi balansau credyd neu orddrafft rhy uchel yn y cyfrif cyfredol yn y banc. Fel arfer, mae'r Awdurdod yn gyfoethog o ran arian parod yn y tymor byr gan fod incwm refeniw yn dod cyn iddo gael ei wario, ond mae'n dlawd o ran arian parod yn y tymor hir gan fod gwariant cyfalaf yn digwydd cyn iddo gael ei ariannu. Mae'r arian refeniw dros ben yn cael ei wrthbwyso gan ddiffyg arian cyfalaf i leihau'r benthyciadau yn gyffredinol.

3.2 **Y strategaeth fenthyca:** Prif amcanion yr Awdurdod wrth fenthyca yw cael cost isel, ond sicr, i'r cyllid a chadw hyblygrwydd rhag ofn bydd cynlluniau'n newid yn y dyfodol. Mae'r amcanion hyn yn gwrthdaro'n aml, felly mae'r Awdurdod yn ceisio cael cydbwysedd rhwng benthyciadau rhad tymor byr (sydd ar gael am ryw 0.75% ar hyn o bryd) a benthyciadau hirdymor ar gyfraddau sefydlog, sef rhai sy'n uwch ond ein bod ni'n gwybod beth fydd y gost yn y dyfodol (2.0 i 3.0% ar hyn o bryd). Yn ôl y canllawiau statudol, dylai dyled aros yn is na'r gofyniad ariannu cyfalaf, heblaw yn y tymor byr.

3.3 **Terfyn benthyca fforddiadwy:** Yn ôl y gyfraith, rhaid i'r Awdurdod osod terfyn benthyca fforddiadwy (a elwir hefyd yn derfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â'r canllaw statudol, mae "ffin weithredol" yn cael ei gosod hefyd, fel rhybudd os yw'r ddyled yn nesáu at y terfyn.

3.4 **Strategaeth fuddsoddi:** Mae buddsoddiadau'r trysorlys yn deillio o dderbyn arian parod cyn ei dalu allan eto. Ar y cyfan, nid yw buddsoddiadau a wneir ar gyfer y gwasanaeth, neu er mwyn elw ariannol pur, yn cael eu hystyried yn rhan o reoli'r trysorlys.

3.5 Polisi'r Awdurdod ar fuddsoddiadau'r trysorlys yw blaenoriaethu sicrwydd a hylifedd yn hytrach nag arenillion, sef canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach na chael yr enillion mwyaf. Mae arian parod sy'n debygol o gael ei wario yn y tymor agos yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill neu fanciau o ansawdd uchel, a hynny er mwyn lleihau'r risg o golled. Dim ond am resymau llif arian y mae'r Awdurdod yn dal buddsoddiadau.

3.6 **Trosolwg o'r Trefniadau Llywodraethu:** Gwneir penderfyniadau bob dydd am fuddsoddiadau a benthyciadau rheoli'r trysorlys, ac mae'r penderfyniadau'n cael eu dirprwyo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth, sef bod y Cyngor yn rheoli swyddogaeth y Trysorlys ar ran y Gwasanaeth Tân. Rhaid i staff sy'n gyfrifol am y swyddogaeth o ddydd i ddydd weithredu yn unol â strategaeth rheoli'r trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 15 Rhagfyr 2003. Mae'r adroddiadau ar weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am graffu ar y penderfyniadau am reoli'r trysorlys.

## 4.0 <u>Y Goblygiadau o ran y Gyllideb Refeniw</u>

4.1 Er nad yw'r gwariant cyfalaf yn cael ei roi yn uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae'r llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a'r ddarpariaeth isafswm refeniw yn cael eu rhoi ar y refeniw, gydag unrhyw incwm o fuddsoddiadau a ddaw yn gwrthbwyso hynny. Yr enw ar y ffi flynyddol net yw costau ariannu; gellir cymharu hyn â'r llif refeniw net, sef y gyllideb gyffredinol i'r Awdurdod.

*Dangosydd Darbodus: Cyfran y costau ariannu i'r llif refeniw net*

| | **2018/19 gwirioneddol (£'000)** | **2019/20 rhagolygon (£'000)** | **2020/21 cyllideb (£'000)** | **2021/22 cyllideb (£'000)** | **2022/23 cyllideb (£'000)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau cyllido | 2,140 | 2,824 | 2,836 | 3,201 | 3,425 |
| Cyfran o'r llif refeniw net | 6.39% | 8.01% | 7.89% | 8.63% | 8.99% |

4.2 **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur arbennig o hirdymor y gwariant cyfalaf a'r ariannu, bydd y goblygiadau o ran y gyllideb refeniw yn yr ychydig flynyddoedd nesaf yn ymestyn hyd at 50 mlynedd i'r dyfodol. Mae'r Trysorydd wedi'i fodloni bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn un ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy oherwydd y rhaglen gadarn sydd gan y gwasanaeth ar gyfer cael asedau newydd sef dim ond ar ôl cynnal dadansoddiad budd costau y bydd cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i unrhyw wariant arfaethedig.

4.3 <u>Gwybodaeth a Sgiliau</u>

4.4 Mae'r Awdurdod yn cyflogi staff gymwysedig a phrofiadol mewn swyddi uchel gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau am wariant cyfalaf, benthyciadau a buddsoddiadau. Er enghraifft, mae'r Trysorydd yn gyfrifydd cymwysedig sydd â mwy na 40 mlynedd o brofiad, ac mae'r Prif Swyddog Cynorthwyol a'r Pennaeth Cyllid yn gyfrifyddion cymwysedig. Mae'r staff yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n gyfrifol am reoli gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys hefyd yn gymwysedig iawn ac maent yn mynychu seminarau cyson gan Arlinglose i sicrhau eu bod yn dilyn y datblygiadau diweddaraf.

4.5 Pan nad yw'r staff yn meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol, defnyddir ymgynghorwyr allanol sy'n arbenigwyr ar eu maes. Mae Conwy'n defnyddio Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys, sy'n cynnig cyngor ar bortffolio'r Gwasanaeth Tân fel rhan o'r cytundeb. Mae'r dull hwn yn fwy cost-effeithiol na chyflogi staff o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cael yr wybodaeth a'r sgiliau sy'n cyfateb i'w awydd am risg.

ATODIAD B

**DANGOSYDDION DARBODUS A BUDDSODDI CYFALAF**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 2003 mae'n ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu Cod Darbodus CIPFA a pharatoi dangosyddion darbodus. Mae pob dangosydd naill ai'n crynhoi'r gweithgaredd cyfalaf disgwyliedig neu'n gosod terfynau ar y gweithgaredd hwnnw, ac mae'n adlewyrchu canlyniad system arfarnu cyfalaf yr Awdurdod. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y dangosyddion cymeradwy presennol ac mae'n cyflwyno dangosyddion newydd ar gyfer 2022/23. Cyhoeddwyd cod diwygiedig yn 2009 ac mae'r adroddiad hwn yn cydymffurfio gyda'r gofynion sy'n gofyn i'r adroddiad hwn gael ei graffu fwy gan y rhai hynny sydd yng ngofal trefn lywodraethol - y Pwyllgor Archwilio sydd â'r cyfrifoldeb ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub.

1.2 Cyflwynwyd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 i'r Awdurdod Tân ac Achub ar 16 Rhagfyr 2019 ac mae'r dangosyddion hyn yn cefnogi'r rhaglen honno. Mae rhyddid gan yr Awdurdod dros wariant cyfalaf cyn belled â'i fod yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Er mwyn dangos ei fod yn gweithio o fewn y terfynau hyn rhaid i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo, adolygu a monitro ystod sylfaenol o Ddangosyddion Darbodus o leiaf ar gyfer y tair blynedd sydd i ddod.

## 2. Y CYNLLUNIAU GWARIANT CYFALAF

2.1 Isod, crynhoir cynlluniau gwariant cyfalaf yr Awdurdod ac mae hyn yn ffurfio'r cyntaf o'r dangosyddion darbodus i'w cymeradwyo gan yr Aelodau. Mae'r holl wariant cyfalaf yn y flaenraglen ar hyn o bryd heb ei gynnal a rhaid ei ariannu o adnoddau'r Awdurdod ei hun..

2.2 Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y Llywodraeth yn penderfynu gosod terfynau ar wariant cyfalaf heb ei gynnal drwy gyflwyno mesurau rheoli ar holl gynlluniau Awdurdodau Lleol neu, pe bai asesiad gan Lywodraeth Ganol yn nodi bod cynlluniau lleol yn anfforddiadwy mewn Awdurdod penodol, gallai weithredu rheolaeth leol i gyfyngu ar ei gynlluniau gwariant cyfalaf. Ni weithredwyd unrhyw fesurau rheoli o'r fath yn ystod 2019/20, ac mae'n annhebygol y defnyddir rheolaethau ar gyfer 2020/21.

| | 2018/19 Gwirioneddol £'000 | 2019/20 Diwygiedig £'000 | 2020/21 Amcangyfrif £'000 | 2021/22 Amcangyfrif £'000 | 2022/23 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| Gwariant cyfalaf | 1,856 | 1,498 | 4,089 | 3,685 | 2,985 |
| Ariannwyd gan: | | | | | |
| Derbyniadau cyfalaf | -107 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grantiau cyfalaf | -144 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Refeniw | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Angen ariannol net am y flwyddyn | 1,605 | 1,498 | 4,089 | 3,685 | 2,985 |

## 3. Angen yr Awdurdod o ran Benthyca (Gofyniad Cyllido Cyfalaf)

3.1 Yr ail ddangosydd darbodus yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf yr Awdurdod (CFR). Yn syml, y CFR yw cyfanswm y gwariant cyfalaf nad yw wedi ei dalu eto o'r adnoddau refeniw na chyfalaf. Yn y bôn, dyma fesur o angen yr Awdurdod yn sylfaenol o ran benthyca. Bydd y gwariant cyfalaf o fewn 2.2 na thalwyd amdano ar unwaith yn cynyddu'r CFR.

Rhaid i'r Awdurdod dalu elfen o'r gwariant cyfalaf cronedig o'r Gronfa Gyffredinol bob blwyddyn drwy ffi refeniw (y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw - MRP), er ei fod hefyd yn cael gwneud darpariaeth refeniw wirfoddol ychwanegol (VRP) hefyd.

Gofynnir i'r Aelodau gymeradwy rhagamcanion y CFR fel isod:

| | 2018/19 Gwirioneddol £'000 | 2019/20 Diwygiedig £'000 | 2020/21 Amcangyfrif £'000 | 2021/22 Amcangyfrif £'000 | 2022/23 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllid Cyfalaf (CFR) | | | | | |
| CFR Agoriadol | 33,917 | 33,382 | 32,644 | 34,465 | 35,563 |
| CFR Cloi | 33,382 | 32,644 | 34,465 | 35,563 | 35,781 |
| Symudiad yn y CFR | -535 | -738 | 1,821 | 1,098 | 218 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Symudiad yn y CFR a gynrychiolir gan | | | | | |
| Yr angen cyllido net ar gyfer y flwyddyn (uchod) | 1,605 | 1,498 | 4,089 | 3,685 | 2,985 |
| Llai MRP/VRP | -2,140 | -2,236 | -2,268 | -2,586 | -2,767 |
| Symudiad yn y CFR | -535 | -738 | 1,821 | 1,098 | 218 |

3.2 Dangosir effaith ddisgwyliedig y penderfyniadau gwariant cyfalaf uchod ar sefyllfa'r Awdurdod o ran dyled a buddsoddi yn Strategaeth y Trysorlys.

## 4. DANGOSYDDION DARBODUS FFORDDIADWYEDD

4.1 Mae'r adrannau blaenorol yn ymdrin â dangosyddion darbodus cyfalaf cyffredinol a rheolaeth benthyca, ond o fewn y fframwaith hwn mae'n rhaid i ddangosyddion darbodus asesu fforddiadwyedd y cynlluniau buddsoddi cyfalaf. Mae'r rhain yn rhoi syniad o effaith cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar sefyllfa ariannol gyffredinol yr Awdurdod. Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r dangosyddion canlynol:

4.2 **Ffigurau gwirioneddol ac Amcangyfrifon o gymhareb costau ariannu i'r llif refeniw net** - Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (costau benthyca a chostau ymrwymiadau eraill yn yr hirdymor) yn erbyn y llif refeniw net. Mae amcangyfrifon costau ariannu'n cynnwys ymrwymiadau presennol a'r Rhaglen Gyfalaf sydd i'w gymeradwyo gan yr Aelodau yn Rhagfyr 2019.

| | 2018/19 Gwirioneddol £'000 | 2019/20 Diwygiedig £'000 | 2020/21 Amcangyfrif £'000 | 2021/22 Amcangyfrif £'000 | 2022/23 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymhareb | 6.39 | 8.01 | 7.89 | 8.63 | 8.99 |

**Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21 i 2022/23**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r gwasanaeth rheoli'r trysorlys yn rhan bwysig o'r ffordd y mae materion yr Awdurdod yn cael eu rheoli'n ariannol yn gyffredinol. Mae'r dangosyddion darbodus yn Atodiad B yn ystyried a yw'r penderfyniadau a wneir ynghylch gwariant cyfalaf yn fforddiadwy, a beth yw eu heffaith, ac maent yn nodi fframwaith gyfalaf cyffredinol yr Awdurdod. Mae strategaeth y trysorlys yn ystyried a yw'r penderfyniadau hyn yn cael eu hariannu'n effeithiol ai peidio. Gyda'i gilydd maent yn rhan o'r broses sy'n sicrhau bod yr Awdurdod yn cwrdd â'r gofyn am gyllideb gytbwys o dan y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae dangosyddion darbodus sy'n benodol i'r trysorlys wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon, ac mae angen eu cymeradwyo.

1.2 Mae gweithgareddau trysorlys yr Awdurdod yn cael eu rheoli'n llym gan ofynion statudol a chod ymarfer proffesiynol (Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys). Mabwysiadodd yr Awdurdod God Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys a Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys ar 15 Rhagfyr 2003. Mae hyn yn bodloni gofynion y cyntaf o Ddangosyddion Darbodus y Trysorlys. Cafodd polisi diwygiedig ei gyhoeddi yn Ebrill 2010 a'i gymeradwyo gan Aelodau, ac mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y polisi newydd. Ymgynghorodd CIPFA ynghylch newidiadau i'r Cod yn 2017, ac arweiniodd hynny at newidiadau yn niwyg adroddiadau fel bod yr Aelodau'n cael adroddiad ar y Strategaeth Gyfalaf yn ogystal â gwybodaeth â gwybodaeth arall am y Trysorlys.

1.3 Yn ôl y Cod, rhaid cyflwyno strategaeth flynyddol i'r Awdurdod yn amlinellu gweithgarwch disgwyliedig y trysorlys am y 3 blynedd i ddod. Cyflwynir adroddiad monitro canol blwyddyn, ac ar ddiwedd blwyddyn darperir adroddiad yn nodi'r gweithgarwch gwirioneddol yn y flwyddyn

1.4 Un o ofynion allweddol yr adroddiad hwn yw egluro'r risgiau yn ogystal â rheolaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwasanaeth y trysorlys. Bydd yr adroddiad o'r strategaeth yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

(i) Dyled yr Awdurdod a'i ragamcanion o ran buddsoddi;
(ii) Amcangyfrifon yr Awdurdod a therfynau ar lefelau dyled yn y dyfodol;
(ii) Y newidiadau a ddisgwylir mewn cyfraddau llog;
(iii) Strategaeth fenthyca'r Awdurdod;
(iv) Fframwaith fuddsoddi, gwrth bartïon a hylifedd ariannol yr Awdurdod;
(vi) Dangosyddion darbodus y trysorlys.

## 2. RHAGAMCANION O RAN DYLED A BUDDSODDI 2019/20 – 2021/22

2.1 Dyma'r sefyllfa bresennol ar 19 Rhagfyr 2019:

Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus - £15,904,732 Cyfradd Sefydlog
Awdurdodau Lleol Eraill - £17,000,000 Cyfradd Sefydlog
Buddsoddiadau - £335,000

2.2 Mae'r gofyniad benthyca'n cynnwys y newidiadau a ddisgwylir yn y CFR, ac unrhyw ad-daliadau ar ddyledion sydd angen eu hail-ariannu. Yn y tabl isod dangosir yr effaith ar sefyllfa'r trysorlys dros y tair blynedd nesaf. Mae hefyd yn tynnu sylw at y newid a ddisgwylir mewn balansau buddsoddi.

| **£'000** | 2019/20 Diwygiedig £'000 | 2020/21 Amcan-gyfrif £'000 | 2021/22 Amcan-gyfrif £'000 | 2022/23 Amcan-gyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Dyled Allanol** | | | | |
| Dyled ar 1 Ebrill | 33,382 | 32,644 | 34,465 | 35,563 |
| Benthyciadau newydd i gwrdd â'r CFR | 0 | 1,821 | 1,098 | 218 |
| Dyledion sy'n aeddfedu | -25,000 | -25,000 | -25,000 | -25,000 |
| Ail-ariannu dyledion sy'n aeddfedu | 24,262 | 25,000 | 25,000 | 25,000 |
| Addasiad ar gyfer blynyddoedd cynt – gor-fenthyca | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyled ar 31 Mawrth | 32,644 | 34,465 | 35,563 | 35,781 |
| Newid blynyddol mewn dyled | -738 | 1,821 | 1,098 | 218 |
| **Buddsoddiadau** | | | | |
| Cyfanswm buddsoddiadau ar 31 Mawrth | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| Newid o ran buddsoddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 |

## 3. TERFYNAU I WEITHGARWCH BENTHYCA

3.1 O fewn y dangosyddion darbodus mae nifer o ddangosyddion allweddol i sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu o fewn y terfynau penodol hyn.

3.2 Ar gyfer y cyntaf o'r rhain, mae angen i'r Awdurdod sicrhau nad yw cyfanswm ei fenthyciadau, net o unrhyw fuddsoddiadau, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y CFR yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw CFR ychwanegol ar gyfer 2019/20r ddwy flwyddyn ariannol ganlynol. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer benthyca cynnar cyfyngedig ar gyfer y dyfodol, ond mae'n sicrhau nad yw benthyca'n digwydd i bwrpas refeniw.

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|

| | Diwygiedig £'000 | Amcan-gyfrif £'000 | Amcan-gyfrif £'000 | Amcan-gyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Dyled ar 1 Ebrill | 33,382 | 32,644 | 34,465 | 35,563 |
| Newid disgwyliedig mewn Dyled | -738 | 1,821 | 1,098 | 218 |
| Ymrwymiadau Tymor Hir eraill | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dyled Gros ar 31 Mawrth | 32,644 | 34,465 | 35,563 | 35,781 |
| CFR | 32,644 | 34,465 | 35,563 | 35,781 |

3.3 Yn ôl adroddiad y Trysorydd mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn yn y flwyddyn gyfredol ac nid yw'n rhagweld unrhyw anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r farn hon yn cymryd i ystyriaeth ymrwymiadau presennol, cynlluniau presennol, a'r cynigion yn adroddiad y gyllideb.
Bydd newidiadau i'r Safonau IFRS 16 yn golygu bod asedau sydd wedi'u categoreiddio fel prydlesoedd gweihtredol ac yn cael eu talu'n uniongyrchol drwy'r gwariant refeniw yn cael eu trin fel prydlesoedd ariannol yn y dyfodol. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub wrthi'n casglu gwybodaeth am yr asedau hyn, a fydd yn galluogi'r awdurdod i gydymffurfio â'r safon newydd.

3.4 **Y Terfyn Awdurdodedig** – mae hwn yn cynrychioli terfyn uwchlaw'r hyn a waherddir o ran dyled allanol ac mae angen i'r terfyn hwn gael ei bennu neu ei ddiwygio gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'n adlewyrchu lefel dyled allanol, y gellid ei fforddio yn y tymor byr, er nad yw hynny'n ddymunol, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Dyma'r terfyn statudol a bennir o dan adran 3 (1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

3.5 **Y Ffin Weithredol** - mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar y ddyled allanol debygol yn ystod y flwyddyn; nid terfyn mohono. Gallai dyled allanol wirioneddol amrywio o gwmpas y ffin hon am gyfnodau byr yn ystod y flwyddyn. Dylai weithredu fel dangosydd monitro i sicrhau nad eir yn uwch na'r terfyn awdurdodedig.

3.6 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r terfyn awdurdodedig canlynol a'r ffin weithredol:

| | 2019/20 Diwygiedig £'000 | 2020/21 Amcangyfrif £'000 | 2021/22 Amcangyfrif £'000 | 2022/23 Amcangyfrif £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn Awdurdodedig | 34,644 | 36,465 | 37,563 | 37,781 |
| Ffin Weithredol | 32,644 | 34,465 | 35,563 | 35,781 |

## 4. Y CEFNDIR ECONOMAIDD A'R NEWID DISGWYLIEDIG MEWN CYFRADDAU LLOG

4.1 Bydd y dylanwad allanol mawr ar strategaeth yr Awdurdod ar gyfer rheoli'r trysorlys yn y 2020/21 yn ddibynnol ar y fargen a geir wrth i'r DU negodi ei hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd a chytuno ar y trefniadau masnachu. Mae'r economi ddomestig wedi parhau'n gymharol gadarn ers canlyniad annisgwyl y refferendwm yn 2016, ond mae arwyddion fod yr ansicrwydd am y dyfodol yn pwyso ar dwf erbyn hyn. Efallai y gall trefniadau trosiannol atal 'ymyl clogwyn', ond byddant hefyd yn ymestyn cyfnod yr ansicrwydd am rai blynyddoedd. Felly, rhagwelir y bydd y twf economaidd yn parhau'n araf drwy gydol 2019/20.

Bydd gwaith y DU wrth negodi ei hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd â'i drefniadau masnachu ar gyfer y dyfodol, yn parahu i fod yn ddylanwad pwysig ar strategaeth rheoli'r trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2020/21. Mae Banc Lloegr wedi cadw Cyfradd y Banc ar 0.75% ym mis Tachwedd, yn dilyn 7-2 o bleidleisiau gan y Pwyllgor Polisi Ariannol. Er eu bod wedi cadw'r cyfraddau fel y maent, fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor gadarnhau y byddant yn barod i dorri cyfraddau llog fel y bo'r angen os bydd ansicrwydd Brexit yn llusgo ymlaen neu os yw'r twf byd-eang yn methu ffynnu o'r newydd. At hynny, mae'r ffaith fod rhai o'r rhagolygon twf wedi cael eu diwygio am i lawr yn yr Adroddiad Polisi Ariannol yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor fod yn llai argyhoeddedig nawr o'r angen i gynyddu'r cyfraddau llog hyd yn oed os bydd cytundeb Brexit.

Mae'r twf yn Ewrop yn parhau'n feddal, a hwnnw'n cael ei yrru gan economi sy'n gwanhau yn yr Almaen ac sydd wedi gweld y GDP yn gostwng -0.1% yn Ch.2, a disgwylir iddo llithro i ddirwasgiad technegol yn Ch.3.

4.2 Erbyn hyn, mae deddfwriaeth 'bail-in', sy'n sicrhau mai buddsoddwyr mawr gan gynnwys awdurdodau lleol fydd yn achub banciau sy'n methu yn hytrach na threthdalwyr yn y dyfodol, wedi cael ei roi ar waith yn llwyr yn yr Undeb Ewropeaidd, y Swistir a'r UDA. Hefyd, mae banciau mwyaf y DU wedi clustnodi eu swyddogaeth bancio manwerthu fel endidau cyfreithiol ar wahân yn ystod 2018. Mae peth ansicrwydd eto ynglŷn â'r modd y bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar gryfder credyd yr endidau cyfreithiol a fydd ar ôl.

4.3 Mae ymgynghorydd rheoli'r trysorlys yr Awdurdod, sef Arlingclose, yn rhagweld y bydd Cyfradd y Banc yn aros ar 0.75% tan ddiwedd 2022. Mae Banc Lloegr, ar ôl dweud o'r blaen y gallai fod yn bosibl y byddai angen i'r cyfraddau log godi os bydd cytundeb Brexit, wedi dweud yn ei Adroddiad Polisi Ariannol ym mis Tachwedd ac yn ei benderfyniad ar Gyfradd y Banc (7-2 o bleidleisiau i gadw'r cyfraddau) fod y Pwyllgor Polisi Ariannol yn credu nawr bod hyn yn llai tebygol hyd yn oed os bydd cytundeb.

Mae arenillion gilt wedi codi ond maent yn dal ar lefelau isel a dim ond symudiad bach iawn am i fyny o'r lefelau cyfredol a ddisgwylir, ar sail rhagweliadau Arlingclose o'r cyfraddau llog. Yr achos canolog yw y bydd arenillion gilt 10 mlynedd ac 20 mlynedd yn codi i tua 1.00% a 1.40% yn eu trefn dros y gorwel amser, gyda risgiau mantoledig bras i'r duedd am i fyny a'r duedd am i lawr. Fodd bynnag, mae cyfnewidioldeb byrdymor sy'n deillio o ddigwyddiadau econonaidd a gwleidyddol dros y cyfnod fwy neu lai yn sicr.

## 5. STRATEGAETH FENTHYCA 2020/21

5.1 Bydd y Trysorydd, dan bwerau dirprwyedig, yn cymryd y ffurf fwyaf priodol o fenthyca gan ddibynnu ar y cyfraddau llog sy'n gyffredin ar y pryd ac ystyried unrhyw risgiau. Gall cyfraddau sefydlog mwy byrdymor ddarparu cyfleoedd sy'n costio llai yn y tymor byr/canolig. Mae cost benthyciadau newydd ar gyfradd fymryn yn uwch wedi cael ei chynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020/21.

5.2 Mae'r Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus wedi strwythuro ei drefniadau benthyca fel bod ailstrwythuro dyled yn anodd, fodd bynnag gyda'r tebygolrwydd y bydd cyfraddau tymor hir yn codi, mae'n debygol bydd unrhyw ailstrwythuro dyled posib yn canolbwyntio ar newid o gyfraddau tymor hir i ddyled tymor byr rhatach, er y bydd y Trysorydd ac ymgynghorwyr y trysorlys yn monitro'r cyfraddau ar y pryd am unrhyw gyfleoedd yn ystod y flwyddyn.

5.3 Mae'r opsiwn o ohirio benthyca a lleihau balansau buddsoddiadau wrthi'n cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn lleihau'r risg i barτïon i gontract ac yn gwrthsefyll y gostyngiad disgwyliedig mewn adenillion ar fuddsoddiadau.

## 6. FFRAMWAITH BUDDSODDI, PARTÏON I GONTRACT A HYLIFEDD ARIANNOL

6.1 Mae newidiadau rheoleiddio yn y sector bancio yn cynyddu'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y trysorlys. Mae'r newidiadau hyn, a adroddwyd yn flaenorol wrth Aelodau, nawr yn gwbl weithredol. Yng ngoleuni'r newidiadau, mae'n bwysig i'r portffolio buddsoddiadau fod yn amrywiol er mwyn lledaenu'r risg. O ystyried y risg, byddai'n ddoeth defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu'r ddyled benthyciadau dros dro fel y bo buddsoddiadau arian parod mor fach â phosibl. Nid oes modd symud i ffwrdd yn llwyr o fuddsoddi fel adnau arian parod i fanciau a chymdeithasau adeiladu gan fod angen rhywfaint o hylifedd ar gyfer llif arian. Felly byddai'n ddoeth gwneud adnau arian parod yn rhai tymor byr, ac edrych ar gyfryngau eraill ar gyfer buddsoddi'r arian sydd gan yr Awdurdod dros ben.

6.2 Bydd y Trysorydd yn cadw rhestr o bartïon i gontract, sef yr holl sefydliadau ariannol y gall y gwasanaeth eu defnyddio ar gyfer buddsoddi arian, gan gydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:-

**Banciau £5 miliwn o derfyn**
Pob banc yn y DU a'u his-fanciau sydd â graddiadau da (Fitch neu gyfatebol). Diffinnir hyn ar hyn o bryd fel

| | |
|---|---|
| tymor hir | BBB |

**Llywodraeth Ganolog - dim cyfyngiad**
Swyddfa rheoli dyled

**Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF)**
Argymhellir bod pob MMF yn cael eu cymeradwyo ar gyfer defnydd cyffredinol, gyda therfyn o £1 filiwn i bob cronfa. Rhagwelir y bydd y cronfeydd hyn yn cael eu defnyddio ar argymhelliad ein Hymgynghorwyr Trysorlys, sef Arlingclose. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi deddfwriaeth newydd mewn grym ynghylch Cronfeydd MMF ac ynghylch cydnabod y rheini ar y fantolen ar ddiwedd blwyddyn fel buddsoddiadau yn hytrach nag fel gwariant cyfalaf.

**Awdurdodau Lleol £2 miliwn o derfyn**
Pob un heblaw am y rhai sy'n agored i gyfyngiad treth cyngor a praeseptau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Cymdeithasau Adeiladu, £2 miliwn o derfyn**
Cymdeithasau Adeiladu wedi eu graddio (fel gyda'r sector bancio).

**Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1 biliwn o asedau) –£2m /9mis o derfyn**
Cymdeithasau adeiladu heb eu graddio ond gydag asedau gwerth £1 biliwn neu fwy.

6.3 Mae'r meini prawf a nodir uchod ar gyfer dewis partïon i gontract yn cynnig agwedd gadarn i fuddsoddi a'u nod yw lleihau'r risgiau ariannol i'r Awdurdod yn sgil buddsoddi arian ar y farchnad arian. Fodd bynnag, canllaw cyffredinol yw'r meini prawf a restrir uchod, a chaiff ffactorau eraill eu hystyried er mwyn penderfynu a yw parti i gontract yn cael ei dynnu o'r rhestr, er enghraifft 'Negative Watch', neu newidiadau i drosoledd mantolen sefydliadau. Mae'r Sefydliadau ar y rhestr partïon i gontract yn cael eu monitro'n agos gan Ymgynghorwyr y Trysorlys, a bydd staff y trysorlys yn addasu gweithgarwch ar fyr rybudd i ddiogelu sefyllfa'r Awdurdod. Mae'r rheolaethau sydd yn y fframwaith yn agored i newid yn ôl amodau'r farchnad. Yr arferiad yw cynnal buddsoddiadau i ddiben llif arian parod yn unig, a defnyddio unrhyw arian dros ben yn lle benthyca.

7. **DANGOSYDDION PERFFORMIAD Y TRYSORLYS**

7.1 Mae tri dangosydd darbodus arall sy'n berthnasol i'r trysorlys. Eu pwrpas yw sicrhau bod gweithgarwch swyddogaeth y trysorlys o fewn rhai cyfyngiadau, a thrwy hynny reoli risg a lleihau effaith newidiadau niweidiol mewn cyfraddau llog. Er hynny, os bydd y mesurau hyn yn rhy gaeth byddant yn amharu ar y cyfleoedd i leihau costau.

7.2 Argymhellir bod yr Awdurdod yn gosod terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu ei fenthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf |
|---|---|---|
| O dan 12 mis | 55% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 45% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 45% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

Mae'r terfyn uchaf ar gyfer y sefyllfa fenthyca tymor byr, sef o dan 12 mis, yn aros ar 55% er mwyn galluogi'r Awdurdod i fanteisio ar y cyfraddau llog isel. 52% yw canran y benthyciadau sy'n aeddfedu ymhen llai na 12 mis o amser a hynny oherwydd bod £17 miliwn o fenthyciadau tymor byr yn cael eu dal gydag Awdurdodau Lleol eraill. Bydd unrhyw fenthyca newydd yn digwydd yn unol â'r terfynau a nodir uchod.

7.3 Argymhellir bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r terfynau canlynol ar gyfraddau llog Sefydlog a Newidiol

| | % Benthyca |
|---|---|
| Cyfradd Llog Sefydlog | 55 – 100 |
| Cyfradd Llog Newidiol | 0 – 35 |

**Atodiad D**

## Y STRATEGAETH FUDDSODDI

### 1. Y RHAGOLYGON PRESENNOL

1.1 **Prif Amcanion** - Prif amcanion strategaeth fuddsoddi'r Awdurdod yw sicrhau yr ad-delir y prif fuddsoddiadau a llog ei fuddsoddiadau yn brydlon yn y lle cyntaf a sicrhau hylifedd ariannol yn ail - a'r trydydd amcan yw adenillion buddsoddi.

1.2 Mae disgwyliadau ar gyfraddau llog tymor byr, y seilir penderfyniadau buddsoddi arnynt, yn dangos ei bod yn debygol y bydd y gyfradd llog bresennol o 0.75% yn parhau cyn belled ag y gellir rhagweld. Mae penderfyniadau buddsoddi'r Awdurdod yn seiliedig ar gymharu'r cynnydd yng nghyfraddau'r farchnad yn erbyn rhagolygon y Awdurdod ei hun a'i ymgynghorwyr.

1.3 Mae anhawster gweithredol clir yn deillio o amodau presennol y farchnad. Yn ddelfrydol byddai buddsoddiadau'n cael eu buddsoddi am gyfnod hirach i sicrhau gwell adenillion, ond mae ansicrwydd ynghylch partïon i gontract a'r newidiadau rheoleiddio yn awgrymu y byddai cyfnodau byrrach yn rhoi gwell diogelwch ac y bydd arian dros ben yn cael ei ddefnyddio yn lle benthyca.

1.4 Mae'r arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddiadau ar hyn o bryd tua £4.3 miliwn. Defnyddir yr arian i ddiben llif arian parod yn unig, gyda'r unrhyw arian dros ben sy'n codi o'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio yn lle benthyca. Ar hyn o bryd, ni ragwelir gwneud buddsoddiadau hirdymor.

### 2. CANLLAWIAU BUDDSODDI CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

2.1 Cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ganllawiau Buddsoddi ym Mawrth 2004, a dyma sail strwythur polisi'r Awdurdod, sydd isod.

2.2 Prif fwriad y Canllawiau yw cynnal y gofyniad presennol i Awdurdodau fuddsoddi'n ddarbodus, a bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddiogelwch a hylifedd ariannol cyn arenillion. Er mwyn hwyluso'r nod hwn, yn ôl y canllawiau mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried cyhoeddiad CIPFA, sef "Treasury Management in the Public Services: Code of Practice and Cross-Sectoral Guidance Notes". Mabwysiadodd yr Awdurdod y Cod ar 15 Rhagfyr 2003, a bydd yn rhoi ei egwyddorion ar waith yn ei holl weithgarwch buddsoddi. Yn unol â'r Cod, mae'r Trysorydd wedi paratoi ei arferion rheoli trysorlys, TMP 1(5), sy'n cynnwys polisi buddsoddi partïon i gontract sydd angen ei gymeradwyo bob blwyddyn.

2.3 Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol – Offerynnau Cymeradwy

Prif ofynion y Cod a'r canllawiau buddsoddi yw sefydlu strategaeth fuddsoddi flynyddol fel rhan o'i strategaeth rheoli'r trysorlys flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddilynol, yn cynnwys nodi a chymeradwyo'r canlynol:

(i) Canllawiau'r strategaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ar fuddsoddiadau, yn arbennig buddsoddiadau amhenodol.
(ii) Yr egwyddorion i'w defnyddio i bennu uchafswm cyfnodau ar gyfer ymrwymo cronfeydd.
(iii) Buddsoddiadau penodol y bydd yr Awdurdod yn eu defnyddio. Buddsoddiadau hylifedd uchel a diogelwch uchel yw'r rhain mewn sterling, gydag aeddfedrwydd o ddim mwy na blwyddyn.
(iv) Buddsoddiadau amhenodol, yn nodi'r oblygiadau risg uwch, yn nodi'r mathau cyffredinol o fuddsoddiad y gellir eu defnyddio a therfyn ar faint o wahanol gategorïau yn gyffredinol y gellir eu dal ar unrhyw adeg.

2.4 Polisi buddsoddi arfaethedig yr Awdurdod yw:

(i) Canllawiau Strategaeth –
Amlinellir prif ganllawiau'r strategaeth uchod gyda'r pwyslais ar ddiogelwch a hylifedd ariannol.
(ii) Cyfnodau Buddsoddi –
Polisi'r Awdurdod yw benthyca cronfeydd am uchafswm o 364 diwrnod.
(iii) Buddsoddiadau penodol - Buddsoddiadau sterling yw'r rhain ag aeddfedrwydd o ddim mwy na blwyddyn. Mae'r rhain yn asedau risg isel lle y mae'r posibilrwydd o golli'r prif incwm neu incwm buddsoddi'n fach. Byddai'r rhain yn cynnwys buddsoddiadau gyda:

- Swyddfa Rheoli Dyled y Trysorlys
- Awdurdodau Lleol Eraill (heblaw am rai â threth wedi'i gapio)
- Pob Banc a Chymdeithas Adeiladu yn y DU gyda graddiad credyd uchel

(iv) Buddsoddiadau Amhenodol –
Buddsoddiadau amhenodol yw unrhyw fath arall o fuddsoddiad (h.y. heb ei ddiffinio fel un Penodol uchod). Mae hyn yn cynnwys Cymdeithasau Adeiladu heb unrhyw raddiad, a benthyciadau am fwy na 364 diwrnod. Pennwyd terfyn o £3m ar gyfer buddsoddiadau "amhenodol".

**ATODIAD E**

## Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw

### Cefndir

1. Y Gofyniad o ran Cyllid Cyfalaf (CFR) yn syml yw'r gwariant cyfalaf sy'n ddyledus, sydd heb ei dalu o naill ai adnoddau refeniw na chyfalaf, ac yn y bôn dyma fesur o angen yr Awdurdod yn sylfaenol o ran benthyca. Mae gofyn i'r Awdurdod dalu elfen o'i wariant cyfalaf bob blwyddyn drwy dynnu o'r cyfrif refeniw (y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw) er ei fod yn cael cymryd taliadau gwirfoddol ychwanegol hefyd.

2. Mae Rheoliadau wedi eu cyflwyno sy'n gosod rheidrwydd ar yr Awdurdod Tân ac Achub i gymeradwyo Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw cyn dechrau pob blwyddyn.

### Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

3. Mae'r Aelodau yn cymeradwyo'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a ganlyn:

   Ar gyfer gwariant cyfalaf a wariwyd cyn 1 Ebrill 2019 ac unrhyw wariant ar ôl hynny, polisi'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw fydd ad-dalu
   - y gwariant cyfalaf a wariwyd ar Dir ac Adeiladau gan ddefnyddio llinell syth y Dull Oes Ased (ac eithrio Gorsaf Dân Wrecsam a adeiladir o'r newydd)
   - ac ar gyfer Cerbydau, Peiriannau, Offer ac Isadeiledd, bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn seiliedig ar amcangyfrif o oes yr asedau
   - bydd y gwariant a wneir ar Orsaf Dân Wrecsam yn cael ei ad-dalu dros oes y les sydd gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (50 mlynedd).

4. Mae'r polisi uchod yn cyd-fynd â'r Rheoliadau, ac mae'n cynnwys newid i'r polisi o ran y dull a ddefnyddir ar gyfer gwariant ar Dir ac Adeiladau. Cafodd cyllideb 2020/21, a gymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Rhagfyr 2019, ei gosod gan ddefnyddio'r dull uchod.

*This document is available in English* **Rhif eitem ar yr agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **27 Ionawr 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Mike Halstead, Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael** |
| Swyddog Cyswllt | **Keith V Williams, Adran Archwilio Cyngor Conwy** |
| Pwnc | **Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol 2020/21 yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried a'u cymeradwyo, a hynny yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Strategaeth gyffredinol Archwilio Mewnol yw darparu cynllun archwilio ar sail risg mewn ffordd broffesiynol ac annibynnol, a hynny yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Strategaeth yn nodi sut bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Awdurdod yn cyflawni ei amcanion drwy ddod â dull systematig a disgybledig i werthuso a gwella effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Blynyddol yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo bob blwyddyn.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau yn ystyried a chymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Blynyddol 2020/21.

**CEFNDIR**

4 Mae'r gofyniad am swyddogaeth Archwilio Mewnol gan awdurdod lleol ymhlyg yn adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau "wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu'n gywir eu materion ariannol". Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod i "gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'u cofnodion cyfrifyddu a'u system o reoli mewnol".

5 Mae cylch gwaith Archwilio Mewnol i'w gael yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y cyfnod hyd at 31ain Mawrth 2021.

**GWYBODAETH**

**DATGANIAD STRATEGAETH**

6 Strategaeth gyffredinol Archwilio Mewnol yw darparu cynllun archwilio ar sail risg mewn ffordd broffesiynol ac annibynnol, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013; mae Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd gwrthrychol i'r sefydliad ac yn cynnal gweithgareddau ymgynghori sydd â'r nod o ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r Awdurdod. Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion drwy ddod â dull systematig a disgybledig i werthuso a gwella effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu.

**DIFFINIAD AC AMCAN**

7 Yn unol â Safonau Archwilio'r Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddatblygu a chynnal strategaeth ar gyfer darparu gwasanaeth Archwilio Mewnol. Swyddogaeth sicrwydd yw Archwilio Mewnol sydd, yn anad dim, yn darparu barn annibynnol a gwrthrychol i'r sefydliad ynghylch yr amgylchedd reoli, ac mae hynny'n cynnwys rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu, a hynny trwy werthuso pa mor effeithiol ydyw wrth gyflawni amcanion y sefydliad. Mewn ffordd wrthrychol, mae'n archwilio, yn gwerthuso, ac yn adrodd ynghylch pa mor ddigonol yw'r amgylchedd reoli fel cyfraniad i'r defnydd cywir, economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau. Mae'r amgylchedd reoli'n cynnwys holl weithrediadau'r awdurdod, ei adnoddau, ei wasanaethau, a'i gyfrifoldebau at gyrff eraill.

8 Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i ATAGC lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol bob blwyddyn. Mae'r Pennaeth Archwilio yn darparu adroddiad blynyddol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant, a hynny er mwyn cefnogi'r modd y caiff y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei lunio. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys barn ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y systemau rheoli risg, a'r amgylchedd rheolaeth fewnol; datgelu unrhyw gymwysterau i'r farn honno ynghyd â rhesymau; crynodeb o'r gwaith archwilio y mae'r farn honno wedi ei seilio arni; y graddau y dibynnwyd ar waith cyrff sicrwydd eraill; ac unrhyw faterion a ystyrir yn berthnasol i lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

9 Mae Archwilio Mewnol yn gweithredu mewn rôl ymgynghorol wrth gynghori rheolwyr ynghylch materion sydd o fewn ei gylch gwaith, megis gweithredu'r rheolaethau priodol o ran prosiectau, datblygiadau a systemau newydd. Yn y cynllun archwilio, pennir yr union ddyraniad o adnoddau mewn perthynas â'r gwaith ymgynghorol. Caniateir dyraniadau amser ar wahân ar gyfer gweithgarwch ymgynghorol, gwaith sy'n ymwneud â thwyll ariannol ac archwiliadau dilynol.

**STATWS**

10 Mae Archwilio Mewnol yn atebol i'r Trysorydd at ddibenion rheolaeth llinell, ac mae'n gymorth i gyflawni swyddogaethau statudol y Prif Swyddog Ariannol, fel y diffinnir hynny yn Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Fodd bynnag, mae Archwilio Mewnol yn annibynnol o ran ei waith cynllunio a'i weithrediad.

11 Mae gan y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio fynediad uniongyrchol at y Prif Swyddog Tân, pob lefel o reolwyr, a'r aelodau etholedig. Mae gan Archwilwyr Mewnol awdurdod i:

- fynd i mewn i unrhyw un o sefydliadau'r awdurdod ar unrhyw adeg resymol.
- cael mynediad at yr holl gofnodion, gwybodaeth a gohebiaeth sy'n ymwneud ag unrhyw drafodion ariannol neu drafodion eraill fel y tybir yn angenrheidiol, a hynny at ddibenion adolygiadau a/neu ymchwiliadau fel rhan o archwiliadau.
- gwerthuso pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r rheolaethau mewnol sydd wedi eu bwriadu i sicrhau asedau a data, a hynny er mwyn cynorthwyo rheolwyr i atal a chanfod twyll ariannol.
- gofyn am esboniadau fel y tybir yn angenrheidiol er mwyn eu bodloni eu hunain fod unrhyw fater sydd dan ymchwiliad yn gywir.
- ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un o weithwyr ATAGC gyflwyno arian, deunyddiau neu unrhyw eiddo arall sy'n perthyn i'r awdurdod a sydd yn eu meddiant hwy neu dan eu rheolaeth hwy.
- mynd at gofnodion sy'n perthyn i drydydd partïon, megis contractwyr neu bartneriaid, pan fo angen hynny a phan fo'n briodol.

**DARPARU'R GWASANAETH ARCHWILIO**

12 Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth archwilio, a hynny yn unol â'r Gwasanaeth Lefel Gwasanaeth. Er mwyn sicrhau y gwneir hyn, mae trefniadau priodol ar gael ar gyfer:

- pennu a chyflwyno'r gwaith sydd i'w gyflawni, yn seiliedig ar Asesiad o Anghenion a phroses gynllunio sy'n seiliedig ar risg, cynllun archwilio blynyddol o'r ochr weithredol a chynlluniau gwaith misol. Mae pob cynllun yn seiliedig ar asesu risg.

- darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer darparu'r cynllun archwilio, y sgiliau angenrheidiol (o ran archwilio yn gyffredinol, ac mewn meysydd technegol) a chyfleusterau cefnogol, megis cyfleusterau Technoleg Gwybodaeth, offer a phrosesau rheoli a gweinyddu.

## CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2020/21

13 Mae'r Cynllun Blynyddol Drafft ar gyfer 2020/21 ar gael yn Atodiad A. Pwrpas y cynllun archwilio blynyddol yw gwneud y canlynol:-

- sefydlu blaenoriaethau archwilio ar y cyd â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, a hynny ar sail dull sy'n seiliedig ar risg i benderfynu beth yw anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn.
- penderfynu pa adnoddau a fydd yn angenrheidiol i gynnal y dyletswyddau archwilio gofynnol.
- adolygu gwaith archwilio'r flwyddyn flaenorol a chymryd camau dilynol.

14 Bod yn ganllaw yn unig yw bwriad y cynllun archwilio. Gallai newid yn yr amgylchiadau neu risgiau eraill sy'n dod i'r amlwg arwain at wyro oddi wrth y cynllun. Lluniwyd y cynllun ar gyfer 2020/21 ar y cyd â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys amser i gymryd camau dilynol ar argymhellion o archwiliadau blaenorol.

15 Bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cael ei ddarparu ar sail Asesiad o Anghenion, sef dull sy'n seiliedig ar risg, a hynny er mwyn pennu anghenion yr Awdurdod ar ddechrau'r flwyddyn a chynlluniau gweithredol manwl a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn flynyddol i'w cymeradwyo. Mae'r asesiad yn nodi nifer y diwrnodiau sydd eu hangen i Archwilio Mewnol allu adolygu'n ddigonol y meysydd dan sylw, a lefel Asesiad Risg ar gyfer pob aseiniaid archwilio a gynllunnir. Amcan blaenaf y dull hwn yw sicrhau bod Archwilio Mewnol yn gallu cyflwyno barn ynghylch yr amgylchedd reoli, trwy gyfeirio adnoddau digonol yn seiliedig ar risgiau perthynol y gweithrediadau, yr adnoddau a'r gwasanaethau dan sylw, a hynny gan ddefnyddio proses Asesu Risg ffurfiol. Mae proses yr Asesu Risg yn cadw mewn cof amrywiaeth o risgiau strategol, corfforaethol, gwasanaethol a gweithredol, gan gynnwys y rhai a nodir trwy'r broses Rheoli Risg, a chan yr archwilydd allanol, a barn yr uwch reolwyr ynghylch y materion hyn. Lle nad yw'r adnoddau sydd ar gael yn rhai y mae Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio yn eu hystyried yn ddigonol ar gyfer rhoi barn o'r fath, adroddir hyn i'r sefydliad trwy'r Pwyllgor Archwilio.

16 Mae'r Cynllun yn cydbwyso'r gofynion canlynol:

- yr angen i sicrhau y bydd y Cynllun Archwilio yn cael ei gwblhau i'r lefelau targed a sefydlwyd gan ddangosyddion perfformiad yr adain;
- yr angen i sicrhau bod y systemau ariannol craidd yn cael eu hadolygu'n ddigonol er mwyn darparu sicrwydd fod gan y rheolwyr drefniadau priodol mewn lle ar gyfer rheolaeth ariannol y bydd yr Archwiliad Allanol yn dibynnu arno;
- yr angen i adolygu trefniadau strategol a gweithredol eraill yn briodol;

- yr angen i gael amser heb rwymedigaeth ar gael i ymdrin â materion na chynlluniwyd ar eu cyfer ac a allai fod yn gofyn am adolygiad neu ymchwiliad;
- dyraniad perthynol yr adnoddau, rhwng sicrwydd, rhai'n ymwneud â thwyll ariannol a gwasanaethau ymgynghorol a ddarperir gan archwilio mewnol.

17 Bydd y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredol a chynnwys y cynllun yn cael ei gadw dan adolygiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Archwilio mewn cysylltiad â'r Trysorydd, a thrwy fonitro datblygiadau corfforaethol a datblygiadau'r gwasanaeth. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael gwybod am berfformiad yn erbyn y cynllun gweithredol.

18 Bydd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â PSIAS (Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus). Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio yn sicrhau bod Llawlyfr Archwilio wedi'i ddiweddaru mewn lle, sy'n rhestru'r safonau disgwyliedig, a bydd yn monitro cydymffurfiad â'r safonau hyn, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â chynllunio, cynnal ac adrodd ynghylch aseiniadau archwilio.

19 Cafodd asesiad allanol o gydymffurfiaeth Archwilio Mewnol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ei gynnal ar 31 Hydref 2016 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Barn gyffredinol yr aseswyr allanol oedd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio ar y cyfan â'r Safonau a'r Cod Moeseg yn yr holl feysydd arwyddocaol, a'i fod yn gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol.

20 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi sefydlu Polisi Adolygu Perfformiad a Datblygiad, sy'n nodi anghenion hyfforddi a datblygu ei weithwyr. Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn dibynnu'n fawr ar effeithiolrwydd ei staff i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Nod y broses adolygu perfformiad a datblygiad yw atgyfnerthu a chryfhau'r berthynas rhwng perfformiadau unigolion, disgwyliadau'r rheolwyr a nodau'r sefydliad. Hefyd, mae'r PSIAS (1230) yn ei gwneud yn ofynnol fod Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael yn sicrhau bod gan yr Adain Archwilio Mewnol fynediad at yr amrediad llawn o wybodaeth, sgiliau, cymwysterau a phrofiad i gyflawni amcanion yr Adain a chyrraedd ei safonau.

21 Bydd Archwilio Mewnol yn ceisio cydweithredu'n effeithiol â'r archwilydd allanol, a sicrhau y gellir gosod y ddibyniaeth briodol ar weithgarwch yr Archwilio Mewnol.

22 Mae dull adrodd Archwilio Mewnol wedi ei nodi yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, a bydd Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r dull hwn gan mai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon o gael canlyniadau ei waith.

23 Wrth gyflwyno pob aseiniad, bydd Archwilio Mewnol yn ystyried gwneud argymhellion ymarferol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r gwaith, ac yn trafod y rhain â'r rheolwyr, fel bod y rheolwyr yn ymrwymo i gynllun gweithredu priodol ar gyfer gweithredu unrhyw welliannau i'r amgylchedd reoli.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Wedi'u hystyried a'u hymgorffori yn y Strategaeth. |
| Cyllideb | Dim pwysau ychwanegol o ran costau; mae'r gyllideb a osodwyd ar gyfer 2020/21 yn ymgorffori'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol. |
| Cyfreithiol | Cydymffurfio ag Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015. |
| Staffio | Dim goblygiadau; staff Archwilio Mewnol Conwy wedi gweithredu'r Strategaeth Archwilio Mewnol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Gwasanaethau Archwilio Mewnol Conwy yn gweithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth. |
| Risgiau | Byddai methu â llunio strategaeth a chynllunio gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn briodol yn arwain at ddull annisgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd y gwaith rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu, a byddai'n amharu'n ddrwg ar y gwaith o wella gweithrediadau'r Awdurdod. Byddai hyn yn gwanhau'r fframwaith llywodraethu, a gallai arwain at sefyllfa lle mae'r Awdurdod yn cael barn anffafriol ar ei drefniadau ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithiol, fel sy'n ofynnol dan y ddeddfwriaeth berthnasol. |

## Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru **Atodiad A**

## Cynllun Blynyddol Drafft ar gyfer Archwilio Mewnol 2020/21

| Cyf. | Adolygiad Archwilio | Sylwadau | Diwrnodau | Amseriad Arfaethedig |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Cyflenwi Gwasanaeth Gweithredol** | | | | |
| | | | | |
| **22** | Diogelwch Tân Cymunedol – Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref | Adolygu'r gweithdrefnau sy'n weithredol ar gyfer Diogelwch Cymunedol – Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, yn enwedig o ran gweithio mewn partneriaeth ac atgyfeirio a chynnal gwiriadau i aelodau 'bregus' o'r gymuned. | **12** | |
| **Maes Risg – Risgiau Ariannol a Thwyll** | | | | |
| | | | | |
| **17** | Adnoddau Dynol a'r Gyflogres – Dechreuwyr ac Ymadawyr | Yr amcanion yw gwerthuso pa mor ddigonol yw gweithdrefnau Adnoddau Dynol a'r Gyflogres ar gyfer dechreuwyr ac ymadawyr, gyda'r bwriad o ganfod unrhyw wendidau wrth reoli'n fewnol a meysydd risgiau posibl yn y system. | **12** | |
| **24** | Storfeydd Canolog | Adolygu gweithdrefnau'r Storfeydd Canolog ar gyfer prynu, derbyn, rhoi, stociau, addasu a diogelu. | **13** | |
| **Gwaith Archwilio Arall** | | | | |
| **-** | Cynllunio Archwiliadau, Adroddiad Blynyddol a Rheolaeth | Darpariaeth ar gyfer amser sydd ei angen ar gyfer yr elfen reoli o'r contract. | **6** | **Yn mynd ymlaen** |
| **-** | Camau Dilynol ar Argymhellion Blaenorol | Cymryd camau dilynol ar argymhellion a wnaed yn 2019/20 –<br>• System y Gyflogres<br>• Rheoli'r Fflyd | **5** | **Yn mynd ymlaen** |
| **-** | Cronfa wrth gefn | Ar gyfer gwaith sydd heb ei gynllunio ac a adnabuwyd yn ystod y flwyddyn, a chyswllt/cyngor fel sydd angen. | **2** | |
| | | **Cyfanswm y Dyddiadau sydd eu hangen ar gyfer Gwaith Archwilio** | **50** | |
| | | **Cyfanswm y Dyddiau a Ddyrannwyd 2020/21**<br>**Cyfanswm y Dyddiadau a gariwyd drosodd o 2019/20**<br>**Cyfanswm y Dyddiau sydd ar gael 2020/21** | **50**<br>**-**<br>**50** | |

*This document is available in English* **Rhif Eitem ar yr Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **27 Ionawr 2020** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch, 01745 535286** |
| Pwnc | **Llythyr Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2018/19** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Dod â llythyr archwilio blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru i'r Pwyllgor Archwilio i'w nodi.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae llythyr archwilio blynyddol 2018/19 yn rhoi crynodeb o'r prif negeseuon sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio ar gyfer y flwyddyn honno.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r Aelodau nodi cynnwys Llythyr Archwilio Blynyddol 2018/19.

**CEFNDIR**

4 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd statudol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**GWYBODAETH**

5 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol roi crynodeb o brif negeseuon ei waith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol hefyd yn cynnwys ei gasgliad ynglŷn â threfniadau'r Awdurdod i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'n adrodd ynghylch gwaith y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn, ac mae'n cynnwys asesiad o gynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol o ran cyllid a'r risgiau a allai godi yn y dyfodol ac a allai effeithio ar y modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu. |
| **Cyllideb** | This report looks at the Authority's financial arrangements with regards operating within the budget set. |
| **Cyfreithiol** | The report is a statutory requirement as detailed above. |
| **Staff** | None |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg** | None |
| **Risgiau** | Key messages may conclude that there are improvements needed that need to be actioned. |

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Y Cynghorydd Peter Lewis (Cadeirydd)
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffordd Salesbury
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 OJJ

**Cyfeirnod:** 1562A2019-20
Dyddiad cyhoeddi: 1 Tachwedd 2019

Annwyl Gynghorydd Lewis

## Llythyr Archwilio Blynyddol - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru 2018-19

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd yr Awdurdod â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- sefydlu systemau rheolaeth fewnol er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw golwg ar drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwiliad y cyfrifon.

Mae awdurdodau tân yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 29 Gorffennaf 2019 rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod. Mae f'adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon. Adroddwyd wrth aelodau o'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a gododd o archwiliad y cyfrifon yn fy **Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol** ar 29 Gorffennaf 2019, ac wedi hynny i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

## Yr wyf yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon yn ogystal â dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rwyf yn fodlon bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau er fy mod, ym mis Mehefin 2019, wedi nodi yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol[1] rai meysydd lle gellid gwneud gwelliannau.

## Rhoddais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi'i gwblhau ar 29 Gorffennaf 2019

Ar ôl rhoi barn archwilio ar y datganiadau ariannol a dod i gasgliad ynghylch trefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau, roeddwn yn gallu tystio bod yr archwiliad wedi'i gwblhau pan gyhoeddais fy marn archwilio.

---

[1] http://www.audit.wales/system/files/publications/1297A2019-20_NWFRA_AIR_2018-19_Eng_0.pdf

## Ffi archwilio ariannol

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2018-19 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni ac a nodir yn y Cynllun Archwilio Blynyddol.

Yn gywir



**Derwyn Owen**
**Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc Simon Smith, Prif Swyddog Tân
Ken Finch, Swyddog Adran 151
Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol